**ADRODDIAD I'R CABINET FFURFIOL**
**19 Chwefror 2013**

**Aelod Cabinet:** **Cyng. Siân Gwenllian, Aelod Cabinet dros Addysg a Phlant a Phobl Ifanc**

**Pwnc:** **Trefn Addysg a Hyfforddiant Ôl-16**

**Swyddog cyswllt:** **Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol**

---

**Y penderfyniad a geisir/pwrpas yr adroddiad**

1. Cymeradwyo sefydlu'r Consortiwm Addysg a Hyfforddiant ôl-16, a'r model gweithredu;
2. Cadarnhau'r Memorandwm Dealltwriaeth, gan hefyd dderbyn y rolau a'r cyfrifoldebau nodir ar gyfer y Cyngor;
3. Awdurdodi swyddogion, mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet dros Addysg a Phlant a Phobl Ifanc, i wneud amrywiadau i'r Memorandwm fel bo'n angenrheidiol ac yn briodol i'r amgylchiadau;
4. Penodi'r Aelod Cabinet dros Addysg a Phlant a Phobl Ifanc i gynrychioli'r Cyngor ar Fwrdd Arweiniol y Consortiwm;
5. Cadarnhau penodiad Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol, a Dewi R. Jones, Pennaeth Addysg, fel cynrychiolwyr y Cyngor ar Bartneriaeth Ddysgu Gwynedd ac Ynys Môn;
6. Cymeradwyo'r bwriad i'r Cyngor weithredu fel y Corff Arweiniol ar gyfer derbyn cyllid a rheoli gweithrediad cais Ewropeaidd y Bartneriaeth, a chadarnhau cyfraniad y Cyngor tua'r cyd-ariannu fel nodir yn yr adroddiad.

---

**Barn yr aelod lleol**

*Ddim yn fater lleol*

---

1**. Cyflwyniad**

1.1 Yn 2008/09 bu cryn newid yn y cyfeiriad polisi ar gyfer dysgu ôl-16 trwy'r ddogfen *Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru.* Bellach mae agenda polisi Llywodraeth Cymru, a'r *Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008*, yn pwysleisio'r gofyn i drawsnewid y drefn ar gyfer dysgu 16-19 oed, boed hynny yn academaidd neu alwedigaethol;

1.2 Sefydlwyd yr angen am Gwricwlwm Lleol ac fe ehangwyd ar y dewis cyrsiau sy'n ofynnol i sefydliadau dysgu eu cynnig i ddysgwyr yn yr oed yma, a chyflwynwyd yr angen i gysylltu'r dysgu gydag anghenion a chyfleon yr economi;

1.3 Mynnir bellach fod Awdurdodau Lleol a'r sefydliadau dysgu, boed yn ysgolion neu golegau, yn dod at ei gilydd ar sail Ardal Ddysgu i gydweithio er

mwyn sefydlu a chyd-gyflwyno Cwricwlwm Lleol, a hynny yn hytrach na chystadlu am ddysgwyr.

1.4 Fodd bynnag, ni osodwyd unrhyw strwythur ar gyfer cydweithio o'r fath, ond rhoddwyd arweiniad pendant i ni yma y dylid sefydlu Ardal Ddysgu i gynnwys y cyfan o Wynedd ac Ynys Môn - gwelwyd y byddai hyn yn caniatáu gweithio ar draws ffiniau i sefydlu niferoedd digonol o ddysgwyr ar gyfer yr ystod ehangach o gyrsiau, ac yn caniatáu darpariaeth fwy effeithiol trwy e.e. leihau dyblygu cyrsiau diangen.

1.5 Sefydlwyd Partneriaeth Ddysgu Gwynedd ac Ynys Môn yn 2009 gyda chynrychiolaeth o'r sefydliadau uchod er mwyn saernïo trefn fyddai yn ymateb i'r gofynion newydd. Cyngor Gwynedd sy'n arwain y Bartneriaeth. Cyflwynir prif gerrig milltir y gwaith hyd yma yn **ATODIAD 1.**

1.6 Cytunodd Bwrdd y Cyngor ar 31 Mawrth 2009 i gychwyn ar y gwaith, gyda chytundeb hefyd y dylai'r drefn newydd adeiladu ar ymateb yr ardal i ymgynghoriad blaenorol *Braenaru Daearyddol*, sef y dewis o Gonsortiwm Ffurfiol. Fe dderbyniwyd cefnogaeth ariannol y Cynulliad i ddilyn eu proses fanwl o amlygu, ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer siâp Consortiwm, eu gwerthuso, a'u profi wedyn yn erbyn meini prawf safonol.

1.7 Mae'r model Consortiwm Ffurfiol gyflwynir yma, felly, yn benllanw'r broses honno, ac yn cwrdd â gofynion polisi Llywodraeth Cymru. Mae'n gosod fframwaith strategol cadarn i'r cydweithio, a hynny o gwmpas anghenion y dysgwr.

1.8 Byddai'r Consortiwm yn sefydlu system drydyddol i'r ardal, yn hytrach na chanoli mewn un sefydliad. Gweler manylion y Cylch Cynllunio, Gweithredu a Monitro, sef model gweithredu'r Consortiwm, yn **ATODIAD 2.**

1.9 Mae'r Penaethiaid uwchradd a'r colegau wedi bod yn rhan o ddatblygu'r model o'r cychwyn ac ar bob cam o'r ffordd;

1.10 Yn yr hydref cynhaliwyd trafodaeth gyda'r cyrff llywodraethol, ac fe gafwyd ymateb positif iawn i'r cyfeiriad newydd gan yr ysgolion a'r colegau. Adroddir ymhellach ar hyn yng nghyfarfod y Cabinet.

1.11 Mae cais wedi ei gyflwyno am gyllid Ewropeaidd i alluogi'r ardal i wreiddio'r drefn yn gadarn yn y cyfnod cychwynnol, ac i reoli newid.

**2. Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

**2.1 *Y Gwahaniaeth a Wneir***

**(a)** **Trefn gynllunio gydlynus** – am y tro cyntaf bydd gan yr ardal drefn i gynllunio'r ddarpariaeth ddysgu yn seiliedig ar wybodaeth a thystiolaeth, a threfn gyson hefyd i ddwyn y wybodaeth ynghyd er mwyn adnabod anghenion dysgu'r ardal, ac fel sail i gynllunio'r ddarpariaeth ddysgu;

**(b) Cydweithio a chydgynllunio -** bydd y cyd-gynllunio a chyd-ddarparu'r cwricwlwm yn galluogi'r ardal i wneud gwell defnydd o adnoddau;

**(c ) Dod â byd addysg a byd gwaith at ei gilydd –** am y tro cyntaf bydd cwricwlwm yr ardal yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau'r economi leol;

**(ch) Mynediad pobl ifanc** – bydd gwell mynediad gan bobl ifanc at addysg a hyfforddiant, ac at y dewis ehangach o gyrsiau yn academaidd a galwedigaethol;

**(d) Cydberthynas ffurfiol a threfnus –** rhwng yr Awdurdodau Lleol, yr ysgolion a'r colegau, gan sicrhau llwybrau dilyniant clir i bobl ifanc.

**(dd) Bydd y model Consortiwm a gyflwynir yma hefyd yn:**

- **Sefydlu trefn o gwmpas anghenion y dysgwr –** fe fydd llais dysgwyr yn greiddiol i'r drefn newydd, ac am y tro cyntaf bydd trefn gyson yn cael ei sefydlu i sicrhau fod eu barn yn dylanwadu ar ddarpariaeth yr ardal a'r profiadau dysgu. Gweler yn **ATODIAD 3** bapur Astudiaeth Achos o farn pobl ifanc un ysgol o'u profiad nhw o ddilyn cyrsiau cydweithredol;

- **Cwrdd â gofynion Llywodraeth Cymru** – mae'n rhoi sail a fframwaith gadarn i'r cydweithio ar draws sefydliadau dysgu; yn cysylltu'r cwricwlwm lleol gydag anghenion dysgwyr ac anghenion cyflogwyr a'r economi leol; ac yn gosod amcanion a mesuryddion pendant o ran cyrraedd at newid. Gweler yr amcanion a'r mesuryddion yn **ATODIAD 4;**

- **Rhoi sylw canolog i ansawdd y dysgu** - prif nod y Consortiwm ydi sefydlu Gwynedd ac Ynys Môn fel ardal o ragoriaeth ar gyfer dysgu ôl-16 gan osod uchelgais i gyrraedd yn uwch. Bydd y ddarpariaeth ddysgu yn seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth fydd yn cynnwys agweddau ansawdd. Bydd monitro yn rhan allweddol o'r model, a bwriedir cydweithio yn agos gyda'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol newydd (GEGYR);

- **Rhoi arweiniad clir i ddarparwyr dysgu'r Ardal (yr ysgolion a'r colegau)** – gosodir camau clir a chyson i'r broses gydweithio, gan gynnwys arweiniad strategol cadarn o ofynion yr ardal. Bwriedir cydweithio gydag *Arsyllfa Data Cymru,* a gydag adrannau a swyddogion data y sefydliadau unigol i adnabod yr anghenion hynny.

- **Cau bylchau data a gwybodaeth -** adnabuwyd fod diffyg data a gwybodaeth o ran cyrhaeddiad strategol mewn sawl maes ar hyn o bryd, a bydd y Consortiwm felly yn comisiynu astudiaethau ac yn datblygu systemau gwybodaeth newydd lle bo bylchau;

- **Sefydlu trefn addas i'r ardal** - o gofio natur ddaearyddol wasgaredig yr ardal, bydd y cydweithio yn seiliedig gan amlaf ar glystyrau o ddarparwyr, yn ysgolion a cholegau, fydd yn cadw'r dysgu mor lleol â

phosib. Fe fydd hefyd yn defnyddio modelau dysgu aml-gyfrwng, gan gynnwys dysgu digidol lle bo hynny yn briodol e.e. i leihau teithio, yn ogystal â wyneb yn wyneb. Bydd y drefn yn un addas hefyd i natur ieithyddol yr ardal gydag amcanion a mesuryddion penodol o ran ehangu a chryfhau dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, a chynyddu'r niferoedd fydd yn manteisio ar hynny. Ystyrir y model fel peilot ar gyfer ardaloedd gwledig eraill;

- **Cadw presenoldeb 6ed dosbarth o fewn ysgolion** – tra bydd newid o ran y cyrsiau fydd yn cael eu cynnig ac ymhle, fe fydd trefn y Consortiwm yn seiliedig ar y patrwm presennol o ysgolion (efo 6ed dosbarth) a'r colegau. Fydd pob cwrs ddim yn cael ei ddysgu ymhob ysgol (na phob coleg), ond fe fydd dysgwyr pob 6ed dosbarth a'r colegau yn derbyn darpariaeth trwy'r drefn newydd. Bydd y darparwyr yn cyd-drefnu'r lleoliadau amrywiol ar gyfer cynnig y dewis o gyrsiau, fydd wedyn ar gael i'w dysgwyr. Mae cymal penodol o fewn y Memorandwm Dealltwriaeth i warchod sefyllfa lle gwelir peryg o danseilio hyfywdra ysgol neu 6ed dosbarth;

- **Sefydlu trefn fydd yn cyflawni mwy gyda'r cyllid sy'n dod i'r ardal ar gyfer dysgu 16-19 oed –** ochr yn ochr â datblygu'r model, derbyniwyd cyllid gan y Cynulliad i gefnogi darparwyr dysgu'r ardal i dreialu cydweithio gyda sefydliadau cyfagos, ac adnabod y cyfleon a'r problemau ymarferol. Mae'r cydweithio hwnnw wedi cyflymu dros y cyfnod yn Arfon, ac wedi arwain at leihau dyblygu'r cyrsiau hynny gyda niferoedd isel trwy dynnu dysgwyr ynghyd. O asesiad wnaed ar ran y Bartneriaeth Ddysgu gan ymgynghorydd ariannol byddai pob cyd-gwrs sefydlir yn rhyddhau ar gyfartaledd £9k yn y flwyddyn gyntaf a £18k yn y blynyddoedd dilynol, arian fyddai wedyn ar gael i'w ail-fuddsoddi yn y ddarpariaeth ddysgu. O ystyried nifer posib cyd-gyrsiau, gwelir lefelau posib eithaf sylweddol o ran y manteision ariannol o wella effeithlonrwydd ar draws yr ardal gyfan;

- **Cynnig gwerth am arian wrth weithredu trefn newydd –** tra bo ardaloedd eraill wedi seilio newid ar gynlluniau cyfalaf sydd ag oblygiadau cost o filiynau lawer, trwy ddefnyddio'r sefydliadau presennol byddai'r newid i drefn Consortiwm yn sefydlu trefn drydyddol cost-isel mewn cymhariaeth;

- **Sefydlu modd i'r ardal ymateb yn strategol i newidiadau a heriau'r dyfodol –** pan ddaw galwadau newydd i newid yn y blynyddoedd i ddod, a heriau posib boed hynny e.e. o gyfeiriad polisi, cyllid neu ansawdd, bydd sefydlu'r Consortiwm yn rhoi'r modd i'r ardal ymateb yn gydlynus ac yn strategol yn hytrach nag ad-hoc neu ar sail sefydliad unigol.

## 3. Ystyriaethau perthnasol

### 3.1 Gofyn Cenedlaethol

Fel ymhob ardal arall yng Nghymru, mae'n ofynnol i drawsnewid trefniadau ar gyfer yr oedran 16-19 oed; dydi peidio â newid ddim yn opsiwn. Mae'r drefn a gynigir yma yn fodel wedi ei siapio yn lleol i gwrdd â'r rheidrwydd hwnnw. Os na chytunir ar y drefn hon, yna, bydd raid mabwysiadu ateb arall, gyda thebygolrwydd nad yma y siapir yr ateb hwnnw.

**3.2 Prif Flaenoriaethau'r Cyngor**

Mae datblygu'r model ar gyfer addysg a hyfforddiant ól-16 wedi ei ddynodi yn brosiect penodol o fewn Cynllun Strategol y Cyngor.

**3.3. Sefyllfa'r Drefn Bresennol**

O'r ymchwil a chywain data wnaed yn 2011 fel rhan o'r gwaith ar gyfer datblygiad y model, gwelwyd fod y wybodaeth ar nifer y cyrsiau gyda niferoedd isel o ddysgwyr, a dyblygu cyrsiau, ynghyd â'r rhagolygon o ran niferoedd disgyblion ól-16 yn y cyfnod i ddod, i gyd yn her i gynaladwyedd ysgolion, yn enwedig felly pe bai cwtogi sylweddol yn y cyllid ar gael i Awdurdodau Lleol. Cyflwynir grynodeb o'r data yn **ATODIAD 5.**

**3.4 Adnabod y Model priodol i'r ardal**

***(i) Sail y Model***

- Yn ei gyfarfod ar 31 Mawrth 2009 wrth gytuno i gychwyn ar y broses o ddatblygu model newydd i'r ardal penderfynodd Bwrdd y Cyngor hefyd y dylai'r model adeiladu ar ganlyniad ymgynghoriad blaenorol y Cynulliad yn Arfon ac Ynys Môn ar opsiynau y cynllun *Braenaru Daearyddol.* Dewis yr ardal, a'r Cyngor oedd yr opsiwn Consortiwm Ffurfiol yn hytrach na'r opsiynau eraill o goleg 6ed dosbarth, sefydlu un coleg trydyddol gyda Choleg Menai, neu dim newid.

- Wrth gyrraedd at y penderfyniad ar yr opsiwn hwnnw, fe ymgynghorodd y Cyngor gyda'r penaethiaid, y cyrff llywodraethol a'r undebau athrawon, ac fe graffwyd y gwaith gan y Gweithgor Gwella Maes Sgiliau a'r Pwyllgor Craffu Datblygu.

- Fodd bynnag, cytunwyd fod yr opsiwn Consortiwm Ffurfiol yn un eang a bod angen gwaith pellach i adnabod ei hyd a'i led, ac o hynny saernïo model strwythurol a threfn gadarn ar gyfer gweithrediad y Consortiwm. Cytunwyd i sefydlu Partneriaeth Ddysgu Gwynedd ac Ynys Môn i arwain a llywio'r gwaith.

***(ii) Adnabod Strwythur y Model a'r Opsiynau Gweithredu***

- Dilynodd datblygiad y model broses ddynodedig Llywodraeth Cymru, sef proses o ymchwilio ac adnabod opsiynau, eu gwerthuso, eu distyllu, a'u profi wedyn yn erbyn meini prawf safonol, gan ddilyn trefn *Model 5 Achos y Trysorlys*. Profodd hon yn broses fanwl a maith, a derbyniwyd cefnogaeth y Cynulliad a Llywodraeth Cymru trwy gyllido neu benodi ymgynghorwyr allanol.

- Cyflwynir fersiwn gryno o'r Opsiynau Rhestr Hir, yr Opsiynau Rhestr Fer, ac opsiynau gweithredu'r prif ddewis yn **ATODIAD 6.**

- Cyfrannodd y Gweithgor Gwella Maes Sgiliau at lunio'r Briff yn 2009, ac fe graffodd hefyd ddatblygiad y gwaith ar y prif gamau rhwng 2010 a 2012. Yn dilyn ei gyfarfod olaf ar 15 Mawrth 2012 fe ymgorfforwyd argymhellion y Gweithgor Gwella i ddatblygiad pellach y model. Adroddwyd i'r Pwyllgor Craffu Datblygu ar 21 Mehefin 2011 ac 20 Mawrth 2012.

***(iii) Sefydlu Cefnogaeth i'r Model***

- Mabwysiadwyd trefn gynhwysol wrth ddatblygu'r model, ac fe gynhaliwyd trafodaethau cyson bob cam o'r ffordd gyda Phenaethiaid ysgolion uwchradd y ddwy sir (efo 6ed dosbarth) a'r colegau. Gyda chymorth ariannol y Cynulliad, cefnogodd y Bartneriaeth Ddysgu waith treialu cydweithio gan yr ysgolion a'r colegau, gan adnabod gwersi ymarferol. Addaswyd y model i gymryd i ystyriaeth y gwersi a ddysgwyd a'r farn broffesiynol, gan gadw hefyd yr elfen strwythur strategol fydd yn fframwaith gadarn i'r darparwyr dysgu wrth iddynt weithredu eu cyfrifoldeb proffesiynol o lunio'r Cwricwlwm Lleol.

- Ystyriwyd y model gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn (ar y cyd) ar 23 Chwefror 2012, gan dderbyn cefnogaeth i'r bwriadau ac i gyflwyno achos busnes i WEFO fel rhan o'r cais am gyllid Ewrop.

- Cynhaliwyd trafodaeth ar sefydlu'r Consortiwm, y model Cylch Cynllunio, Gweithredu a Monitro, a'r ddogfen cytundeb gyda'r cyrff llywodraethol ar 24 Hydref 2012, gan roi cyfnod iddynt gyflwyno unrhyw sylwadau neu gwestiynau pellach. Derbyniwyd nifer o gwestiynau, rhai wedi i'r cyfnod ddod i ben, ond fe'u hatebwyd oll cyn y Nadolig. Yn dilyn hynny, cafwyd ymateb positif iawb gan gyrff llywodraethol yr ysgolion a'r colegau, ac fe adroddir ymhellach ar hynny yn y cyfarfod.
- Cynhaliwyd trafodaeth gychwynnol gydag undebau'r athrawon mewn awyrgylch gadarnhaol ac, o dderbyn cymeradwyaeth y Cabinet, bydd y trafodaethau yma yn parhau.

**3.5 Memorandwm Dealltwriaeth**

Cyflwynir y Memorandwm Dealltwriaeth yn **ATODIAD 7.**

***(i) Cytundeb Ffurfiol***

- Mae'r Memorandwm yn ddogfen cytundeb ffurfiol sy'n ymrwymo'r partneriaid i gyd o ran y ddarpariaeth ddysgu 16-19 oed - sef ysgolion uwchradd (efo 6ed dosbarth) y 2 sir, safleoedd Grŵp Llandrillo-Menai o fewn yr ardal, a'r 2 Awdurdod Lleol.

- Byddai'r Cyngor wrth ymuno â'r Consortiwm yn ymarfer ei bwerau o dan Adran 2 – Deddf Llywodraeth Leol 2000, Adrannau 13A a 15A Deddf Addysg 1996, Adran 82 Deddf Addysg Pellach ac Uwch 1992 ,Adrannau 33K, 33L a 116A Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Rheoliadau ac Arweiniad cysylltiedig.

- Trwy arwyddo'r Memorandwm byddai'r Partneriaid i gyd (gan gynnwys y Cyngor) yn ymrwymo i gynllunio'r ddarpariaeth ddysgu a'i gweithredu trwy

gyfrwng y Consortiwm yn unig. Byddai'r Cyngor yn ymrwymo i gyflwyno'r cyllid angenrheidiol i'r ysgolion ar gyfer y ddarpariaeth ol-16 fel sy'n digwydd rŵan; byddai Grwp Llandrillo Menai yn ymrwymo i ddarparu'r cyllid angenrheidiol ar gyfer y ddarpariaeth 16-19 oed i'w safleodd dysgu o fewn yr ardal; a byddai'r ysgolion a'r colegau yn ymrwymo yn unigol a rhyngddynt i ddefnyddio'r cyllid i bwrpas cyflwyno'r ddarpariaeth fydd wedi ei chytuno trwy'r Consortiwm a gan y Gweinidog.

- Fydd y cytundeb yma ddim yn nacau pwerau a hawliau eraill y Cyngor o dan y ddeddfwriaeth.

- Adolygir gweithrediad y Consortiwm yn hydref 2015.

***(ii) Strwythurau Gweithredu'r Consortiwm a'u Swyddogaethau***

- Bydd y Consortiwm yn cael ei lywio gan **Bartneriaeth Ddysgu Gwynedd ac Ynys Môn**, fydd yn gyrru a chefnogi'r Amcanion a'r Cylch Cynllunio, Gweithredu a Monitro. Y Bartneriaeth fydd e.e. yn amlygu anghenion dysgu'r ardal; yn comisiynu a chywain y sail wybodaeth a thystiolaeth; ac yn darparu'r arweiniad strategol fel sail i sefydlu'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant ar gyfer yr ardal. Bydd hefyd yn gweithredu fel corff datrys rhwystrau ac anghydfod. Nodir y swyddogaethau yn gyflawn yng Nghymal 10 o'r Memorandwm.

- Sefydlir **Bwrdd Arweiniol** fydd gyda'r cyfrifoldebau penodol o osod y cyfeiriad strategol lefel uchel ar gyfer cynllunio'r ddarpariaeth ddysgu, a chymeradwyo'r ddarpariaeth, ar sail anghenion dysgu'r ardal ac er mwyn cyrraedd Amcanion y Consortiwm. Bydd gan y Bwrdd Arweiniol hefyd y cyfrifoldeb penodol o weithredu fel uwch gorff datrys rhwystrau neu anghydfod.

- Nodir trefniadau aelodaeth y Bartneriaeth Ddysgu a'r Bwrdd Arweiniol yng Nghymal 13.2 o'r Memorandwm.

- Sylwer, o dderbyn cymeradwyaeth y Cabinet y byddai gwahoddiad yn cael ei ymestyn i sicrhau cynrychiolaeth Addysg Uwch, a'r cyrff gyrfa, byd gwaith a busnesau lleol fel y'u nodir yn y rhestr aelodaeth.

***(iii) Rôl y Cyngor o fewn y Consortiwm***

- Byddai rolau'r Cyngor (nodir yng Nghymal 2.1) yn cynnwys:
  - Gwasanaethu ar Bartneriaeth Ddysgu Gwynedd ac Ynys Môn
  - Gwasanaethu ar Fwrdd Arweiniol y Consortiwm
  - Ymgymryd â chyfrifoldebau y **Corff Arweiniol**, yn arbennig mewn perthynas â rheoli cyllid a gweithrediad y prosiect trwy gais Ewropeaidd.

***(iv) Cynrychiolwyr y Cyngor***

- Argymhellir fod yr Aelod Cabinet dros Addysg a Phlant a Phobl Ifanc yn cynrychioli'r Cyngor ar y **Bwrdd Arweiniol;**

- Argymhellir fod Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol, a Dewi R. Jones, Pennaeth Addysg yn cynrychioli'r Cyngor ar **Bartneriaeth Ddysgu Gwynedd ac Ynys Môn.**

**3.6 Cyllido'r Consortiwm**

***Y gofyn cyllidol***

- Cyflwynwyd cais ac Achos Busnes am £1.1m o gyllid Ewropeaidd er mwyn sefydlu'r drefn newydd o fewn yr ardal, trefn a ystyrir yn drawsnewidiol o safbwynt darpariaethau addysg a hyfforddiant ôl-16. O'r cyfanswm nodir uchod byddai £650k yn dod o raglenni Ewrop, gyda'r £450k arall yn cael ei gyfrannu gan y partneriaid.

- Y partneriaid fyddai: y 2 Awdurdod Lleol, Grŵp Llandrillo-Menai, ac ysgolion uwchradd y 2 sir ar y cyd, sef cyfanswm o 4 partner gyda phob un partner, gan gynnwys y Cyngor, yn cyfrannu £112,500 yr un.

- Mae Bwrdd y Cyngor eisoes wedi clustnodi'r ddarpariaeth gyllidol ar gyfer y prosiect Trawsnewid Addysg a Hyfforddiant ôl-16 fel dyraniad o'r Cynllun Tair Blynedd ar 3 Mai 2011.

***Swyddi***

- Trwy'r cyllid penodir tîm bychan o 2.5 swyddog fydd yn gyrru'r trawsnewid ar y cyd gydag ysgolion a cholegau unigol, gyda chlystyrau darparwyr, fforymau lleol, a gyda threfniadau ansawdd dysgu Llywodraeth Cymru;

- Penodir Rheolwr Prosiect llawn amser, Ymchwilydd a Dadansoddwr Data rhan amser, a Gweinyddwr (lefel uchel) llawn amser gyda dealltwriaeth fanwl o ofynion ESF.

***Gweithgareddau***

- O ran y gwaith trawsnewidiol, bydd y tîm yn canolbwyntio ar:
  - o Yrru cydweithio ar draws sefydliadau, sefydlu cwricwlwm ardal a lleihau dyblygu diangen;
  - o Sefydlu cyd-systemau slic a chyffredin ar draws sefydliadu er mwyn dal a dadansoddi prif wybodaeth, tystiolaeth a data, anghenion cyflogwyr lleol, barn broffesiynol y sector ôl-16, a llais y dysgwr – sefydlir Rhith-dîm o swyddogion arbenigol y sefydliadau i gefnogi'r gwaith yn ôl yr angen;
  - o Gefnogi sefydliadau a grwpiau rhanddeiliaid i addasu i newid, gan adnabod a chyfarch rhwystrau posib i ddulliau newydd o weithio, ac i gefnogi lleoliadau a allasai gael eu heffeithio yn negyddol i gynllunio atebion i'w sefyllfa, gan hefyd ddefnyddio'r arian fydd wedi ei glustnodi o fewn y gyllideb ar gyfer gweithredu atebion.

- Ar wahân i'r uchod a'r swyddogaeth rheoli prosiect bydd y tîm hefyd yn:
  - o Comisiynu astudiaethau, gwerthusiadau ac yn codi ymwybyddiaeth o'r gwaith arloesol ac yn trefnu i rannu'r gwersi a ddysgwyd;
  - o Sicrhau fod pob comisiynu yn cyd-fynd efo Arweiniad WEFO;
  - o Sicrhau fod yr holl wybodaeth data perfformiad, y deilliannau a'r canlyniadau yn cael eu casglu, cadw a'u hadrodd yn unol â gofynion WEFO

***Cyd-ariannu***

- Mae Grwp Llandrillo-Menai, a Chyngor Sir Ynys Môn wedi cytuno i'r cydariannu, ac mae cytundeb hefyd ymysg ysgolion uwchradd y 2 sir.

## 3.7 Trefn Reolaethol

- Y Cyngor fyddai'r Corff Arweiniol, ac yn gyfrifol am agweddau rheolaeth a monitro'r cynllun ar ran y Bartneriaeth Ddysgu, gyda Rheolwr Prosiect yn cael ei benodi trwy'r cais Ewrop. Cefnogir y Rheolwr gyda'r gwaith monitro gan y swydd Gweinyddwr (lefel uchel), a gyllidir eto trwy'r arian Ewropeaidd.   Y Cyngor fydda'r cyflogwr ar ran y Bartneriaeth Ddysgu.

- Cyflwynir y strwythur rheolaethol ac atebolrwydd yn **ATODIAD 8**.

## 3.8 Risgiau

- Cyflwynir y dadansoddiad risg yn **ATODIAD 9.**

- Nodir 10 risg cychwynnol, a chamau lliniaru yn yr Atodiad, a nodir isod y 3 risg categori uwch , a'r camau lliniaru perthnasol.

| **Maes Risg** | **Mesurau Lliniaru** |
|---|---|
| Anghytundeb rhwng Partneriaid ynghylch cynigion gweithredol a strategol y Consortiwm wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen | Mae dogfen gytundebol y MD wedi'i datblygu gydag ymwneud llawn y partneriaid er mwyn gwneud i ffwrdd â'r risg o fethu gweithredu. Mae'r ddogfen yn cynnwys gweithdrefn ddatrysiadau pe bai anghydfod yn codi. Felly, bydd y partneriaid yn arwyddo ac yn ymrwymo ar ddechrau'r prosiect i'r gweithgareddau, y canlyniadau a'r cynigion, eu rôl hwy ac i'r egwyddorion cydweithio a nodwyd.<br><br>Mae protocolau ariannol rhwng sefydliadau hefyd wedi'u sefydlu ac wedi'u cyd-gytuno er mwyn galluogi i'r dysgwr ddilyn ei ddewis-gyrsiau ble bynnag y maent i'w cael. |
| Datblygu'r *Tîm Rhithwir* | Mae dogfen gytundebol y MD wedi'i datblygu gydag ymwneud llawn y partneriaid er mwyn gwneud i ffwrdd â'r risg o fethu gweithredu.. Mae'r partneriaid eisoes wedi cytuno y bydd eu harbenigeddau trwy'r aelodau staff priodol ar gael i'r prosiect yn ôl y gofyn. |
| Y gwerth ddim yn amlwg i'r gymuned ehangach | Mae newidiadau addysgol wedi ennyn ymateb cymunedol cryf yn ddiweddar, a hynny ym mhob rhan o Gymru, yn bennaf oherwydd cynigion i gau ysgolion. Nid yw'r prosiect hwn yn ymwneud â chau ysgolion – bydd yn sefydlu system drydyddol, yn hytrach na sefydliad trydyddol. Bydd yn cael ei gwneud yn glir i'r gymuned ehangach y bydd y system newydd yn defnyddio arbenigedd darparwyr presennol mewn modd na fydd yn ei hun yn tanseilio hyfywdra y ddarpariaeth oed 11-16 nac yn gwneud i ffwrdd â chweched dosbarth o fewn ysgolion. Ar yr un |

| | |
|---|---|
| | pryd, mae arian wedi'i glustnodi o fewn y cais er mwyn ymdrin â'r materion a ystyrir i fod yn rhwystrau i newid ac i liniaru'r risg. |

- Cadarnheir fod y camau lliniaru a nodir wedi eu cynnwys fel gweithgareddau i'w cyllido o fewn y cais Ewrop.

### 3.9 Cynaladwyedd

- Dydi'r sefyllfa bresennol ddim yn gynaladwy, a bydd y model a argymhellir yn rhoi darpariaeth ddysgu Gwynedd ac Ynys Môn ar sail gadarnach i'r dyfodol, gan gyflawni mwy ar gyfer dysgwyr gyda'r adnoddau ar gael.

- Bydd cyllid Ewrop yn caniatau gweithredu Gwedd 1, sef sefydlu'r Consortiwm a'i drefn Cynllunio, Gweithredu a Monitro ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm ardal cydlynol ym Medi 2014, ac ar gyfer yr oedran 16-19.

- Cynhelir adolygiad ar derfyn Gwedd 1 i'w gwblhau hydref 2015, gyda bwriad i gydweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflwyno cais Gwedd 2 bryd hynny fydd yn parhau'r gweithgareddau a'r manteision. Rhagwelir y bydd Gwedd 2 hefyd yn debygol o gynnwys model ar raddfa ddaearyddol llawer ehangach ac ar draws sawl ardal awdurdod lleol cyfagos, gyda golwg hefyd ar ehangu'r gynulleidfa i gynnwys Dysgu yn y Gweithle ac Addysg Gymunedol i Oedolion.

- Rhagwelir wedyn yn y cyfnod dilynol y bydd y drefn cydweithio strategol wedi ei gwreiddio'n gadarn ar draws yr is-rhanbarth, y darparwyr dysgu a'r dysgwyr eu hunain gan alluogi'r model i gael ei drosglwyddo i'r brif-ffrwd a threfniadau cyd-gyllido'r partneriaid ar ddiwedd Gwedd 2.

### 3.10 Cyfleon Cyfartal

- Fel y Corff Arweiniol, sydd â pholisi cyfle cyfartal priodol i sefyllfa'r sector gyhoeddus, bydd y Cyngor yn sicrhau fod y Consortiwm yn gweithredu'r polisi hwnnw mewn perthynas â holl ystod gwaith y Consortiwm e.e. o ran cynllunio'r ddarpariaeth ddysgu, penodiadau, trefn weithredu a chyfarfodydd, gohebiaeth a marchnata.

## 4. Camau nesaf ac amserlen

- O dderbyn cefnogaeth y Cabinet, bydd swyddogion yn:
  - o Cwblhau gofynion terfynol WEFO ac yn sefydlu'r amserlen ar gyfer derbyn cymeradwyaeth ffurfiol a'r llythyr cynnig (Mawrth 2013);
  - o Gwahodd cynrychiolwyr Addysg Uwch, a'r cyrff gyrfa, byd gwaith, a busnesau lleol i ymuno â'r Bartneriaeth;
  - o Parhau'r drafodaeth gydag undebau'r athrawon;
  - o Gwneud unrhyw fân-amrywiadau i'r Memorandwm a welir yn angenrheidiol ar y pwynt yma (erbyn diwedd Chwefror 2013);
  - o Rhag-rybuddio staff y sefydliadau dysgu a'r Awdurdodau Lleol o'r cyfleon secondiadau (dechrau Mawrth 2013);
  - o Trefnu digwyddiad arwyddo'r Memorandwm ar y cyd (tua diwedd Mawrth 2013);
  - o Gwahodd y Gweinidog i'r lansiad (dyddiad i'w gadarnhau)

- o Cychwyn Gweithredu (diwedd Mawrth 2013)

- Noder fod yr amserlen uchod yn ddibynnol ar amserlen WEFO a'r dyddiad cychwyn a gytunir yn y llythyr ffurfiol o gynnig.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
"Mae'r argymhellion sydd gerbron yn ceisio cyflwyno trefn sydd yn gynaladwy i'r dyfodol. Mae'n amlwg na fydd y gyfundrefn bresennol yn gynaladwy i'r dyfodol ac felly, mae'r trafod a chydweithio rhwng y partneriaid, yn cynnwys rhai sydd, yn draddodiadol wedi bod yn cystadlu â'i gilydd, i'w groesawu yn fawr iawn wrth i ni geisio ar y cyd am yr ateb gorau yn yr amgylchiadau. Yn amlwg, mae ffordd bell i fynd eto wrth i'r trefniadau gael eu gweithredu ond mae'r argymhellion yn cynnig sylfaen bwysig ar gyfer y gweithredu hynny."

**Y Swyddog Monitro:**
Mae'r adroddiad yn cyffwrdd â'r holl ffactorau sy'n berthnasol i'r Cabinet eu hystyried wrth ddod i benderfyniad ar y mater hwn ac nid oes unrhyw faterion eraill o briodoldeb yn codi.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Yn amodol ar lwyddiant y cais am £650,000 o grant Ewropeaidd tuag at gost lawn y cynllun o £1.1m, cadarnhaf fod darpariaeth eisoes mewn lle ar gyfer cyfraniad £112,500 Cyngor Gwynedd. Fel dywedai'r trydydd pwynt bwled o dan ran 3.6 o'r adroddiad (sy'n amlinellu goblygiadau cyllidol y drefn arfaethedig), mae Bwrdd Y Cyngor 3 Mai 2011 wedi clustnodi adnodd o gyllideb y Cynllun Tair Blynedd (Cynllun Strategol erbyn hyn) ar gyfer gwireddu'r nod.

Pe bai'r Cabinet yn cymeradwyo'r bwriad i Gyngor Gwynedd weithredu fel y Corff Arweiniol ar gyfer cais grant Ewropeaidd y Bartneriaeth isranbarthol yma, bydd yr Adran Gyllid yn cydweithio'n ddarbodus gyda rheolwyr y prosiect wrth dderbyn cyllid, rheoli gweithrediad a chadw tystiolaeth a chofnodion ariannol priodol er mwyn diogelu buddion y Cyngor.

Yng nghyfarfod y Cabinet, diau y bydd aelodau awydd diweddariad gan yr Aelod Cabinet dros Addysg ynglŷn â chynnydd i sicrhau ymrwymiad ffurfiol gan ein partneriaid, gan gynnwys Cyngor Sir Ynys Môn, Ysgolion 6ed Gwynedd a Môn, a Colegau Grŵp Llandrillo-Menai, ynglyn â'u cyfraniad ariannol hwy at sefydlu'r drefn arfaethedig.

---

**Atodiadau**

1. **Prif Gerrig Milltir yn natblygiad y Consortiwm a'r model gweithredu**
2. **Y Model Gweithredu - Cylch Cynllunio, Gweithredu a Monitro**

**3. Profiadau Dysgwyr o Gyrsiau Cydweithredol ôl-16 – Astudiaeth Achos**

**4. Amcanion y Consortiwm a Mesuryddion Cyrhaeddiad**

**5. Sefyllfa'r Drefn Bresennol**

**6. Yr Opsiynau Ystyriwyd**

**7. Memorandwm Dealltwriaeth**

**8. Strwythur Rheolaethol**

**9. Y Dadansoddiad Risg**